**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Barbara Smith - Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Bobby Feeley – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd David Smith – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Huw Williams – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016 ac agor ysgol a reolir yn wirfoddol Categori 2 newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2016.*<br><br>*(b) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Penbarras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-daro ag agor yr adeiladau ysgol newydd, ac*<br><br>*(c) argymell y dylai'r Cyngor cymeradwyo'r Achosion Busnes a'r Dyraniad Cyfalaf ar gyfer*<br><br>*1. Ysgol Safle Glasdir i ddisodli'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Stryd y Rhos / Ysgol* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Penbarras*<br>*2. adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn*<br>*3. adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal Llanfair a Phentrecelyn, yn amodol ar ganlyniad y cynigion trefniadaeth ysgolion.* |
| **6** | CYLLIDEB 2015/16 (CYNIGION TERFYNOL - CAM 3) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cefnogi cynigion y gyllideb ar gyfer 2015/16 fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad ac yn eu hargymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn;*<br><br>*(b) argymell i'r Cyngor gynyddu Treth y Cyngor o ganlyniad i hynny, ar gyfartaledd o 2.75% yn 2015/16;*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor bod £500k o falansau cyffredinol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gyllideb refeniw am y tair blynedd ariannol nesaf;*<br><br>*(d) argymell i'r Cyngor bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cymryd blaenoriaeth mewn rowndiau gosod cyllideb yn y dyfodol, a*<br><br>*(e) cyfeiriad at holl ymatebion Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru am y gostyngiad yn y cyllid a roddir i briffyrdd Sir Ddinbych a'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y gwelliannau i'r M4 yn cael ei gynnwys yn adroddiad Cyllideb 2015/16 i'r Cyngor.* |
| **7** | CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cynlluniau Tref ac Ardal;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo asesiad Grŵp Cefnogwyr Cynlluniau Tref ac Ardal o brosiectau a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cabinet ond sydd heb eu dechrau eto;*<br><br>*(c) dad-ymrwymo'r dyraniad cyllid i'r prosiectau a aseswyd fel rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf; a*<br><br>*(d) cymeradwyo paratoi rhestr ddiwygiedig o brosiectau blaenoriaeth ar gyfer y Cynlluniau Tref ac Ardal a'r broses arfaethedig ar gyfer dyrannu arian i'r prosiectau yma fel y nodir yn yr adroddiad, a*<br><br>*(e) y dylai meini prawf asesu'r prosiectau a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad, ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, sicrhau mai dim ond prosiectau sy'n niwtral o ran refeniw y dylid bwrw ymlaen â hwy.* |
| **8** | POLISI DYLEDION CORFFORAETHOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r 'Polisi Dyledion Corfforaethol' fel y mae i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.* |
| **10** | RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **11** | POLISI GWIRIO'N SEILIEDIG AR RISG CYNLLUNIAU LLEIHAU BUDD-DAL TAI A THRETH Y CYNGOR. | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi 'Gwirio ar Sail Risg' fel y mae i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad.* |